Cofnodion cyfarfod rhithiol 8 Chwefror 2022 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iwan Huws	Llŷr Evans	
Daniel Williams	Emyr Gareth	
Dafydd Huws	Eifion Williams	
Nerys John	Cynog Prys	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Iwan Huws Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Casi Roberts, Cynghorydd Iestyn Harris a'r Cynghorydd Lliwen Griffith-Williams	
1.1	Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: canllawiau statudol Cynghorau Cymuned a Thref | LLYW.CYMRU <https://eur01.safelinks.protection.outlook.com/?url=https%3A%2F%2Fllyw.cymru%2Fdeddf-llywodraeth-leol-ac-etholiadau-cymru-2021-canllawiau-statudol-cynghorau-cymuned-thref&data=04%7C01%7CTim.Donegani%40gov.wales%7C6e9dcaa8cbe6407f475b08d9c07ff061%7Ca2cc36c592804ae78887d06dab89216b%7C0%7C0%7C637752477982030045%7CUnknown%7CTWFpbGZsb3d8eyJWIjoiMC4wLjAwMDAiLCJQIjoiV2luMzIiLCJBTiI6Ik1haWwiLCJXVCI6Mn0%3D%7C3000&sdata=jmwXab%2BnFuvi%2BVaYBnxsc5MGi64cfTeLyWHyEI2fLLA%3D&reserved=0> - eglurodd y Cadeirydd bod y ddeddfwriaeth hon yn effeithio Cynghorau Cymuned a bydd yn golygu bod Cyngor Cymuned Y Felinheli ddyletswyddau newydd er mwyn cydymffurfio a'r ddeddf. Golygai bydd angen rhoi cyflwyno adroddiad blynyddol, rhoi cyfle i'r cyhoedd gyfrannu'n fisol i'r cyfarfodydd, cynllun hyfforddi ar gyfer y cynghorwyr, darparu cyfarfodydd o sawl lleoliad. Mae amserlen ar gyfer yr holl newidiadau. Mae angen ymateb i gwestiynau ynglŷn â'r ddeddf. Penderfynwyd byddai'r Clerc a'r Cadeirydd yn paratoi'r ymateb.	**CLERC/IH**
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
2.1	Nid oedd y Cadeirydd Sir yn bresennol.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynwyd y gwariant ar gyfer mis Ionawr 2021 ac eglurwyd y sefyllfa ariannol. Derbyniwyd y gwariant a'r adroddiad ariannol.	
4.2	Eglurodd y Cadeirydd bod is-bwyllgor Cyllid y Cyngor wedi cyfarfod neithiwr er mwyn edrych ar yr holl geisiadau am gymorth ariannol am y flwyddyn ariannol 2021 - 2022. Pwrpas y cyfarfod oedd ystyried y ceisiadau o ran dilysrwydd a rhoi argymhellion ymlaen i'r Cyngor er mwyn penderfynu. Yn dilyn trafodaeth, cefnogwyd yr argymhellion gan y Cyngor llawn.	**CLERC/CYLLID**

	Gweler y ceisiadau a'r penderfyniadau yn atodiad 1.	
4.3	Oherwydd amgylchiadau heb eu rhagweld yn y neuadd a'r costau yn codi o ganlyniad mae'n angenrheidiol ail edrych ar y penderfyniad mis Ionawr ynglŷn â chodi'r praesept i £44mil yn unig. Mae'r gwaith ychwanegol i'r neuadd (£3930) a'r adroddiad strwythurol peirianyddol (570) yn golygu bod y cyfanswm yn effeithio cyllideb drafft y cyngor. Penderfynwyd codi'r praesept i £46 mil am y flwyddyn 2022 - 2023.	**CLERC**
4.4	System Cyfrifon - Scribe. Yn dilyn cyhoeddi cyllideb drafft y mis diwethaf penderfynwyd gwneud ymchwil gogyfer cael system gyllidol ar gyfer y Cyngor. System a fyddai yn galluogi'r Cyngor i wneud y gwaith ariannol yn haws ond ar yr un pryd i helpu gyda' cydymffurfio ar hyn sydd angen gan Awdit Cymru. Wedi ymchwil gan y clerc ar y sustemau oedd ar gael a pha system oedd cynghorau Cymuned eraill yn ei ddefnyddio, y canlyniad oedd bod 700+ o gynghorau Cymuned a thref yn defnyddio Scribe. Fe wnaethpwyd ymholiad a scribe ac fe gafodd y Clerc a'r Cynghorydd Daniel Williams arddangosfa rithiol gan aelod o dim Scribe. Mae scribe yn galluogi i Gynghorau Cymuned i gofnodi eu gwariant ac incwm yn y modd mae Awdit Cymru ei angen gogyfer yr Adolygiad blynyddol. Mae defnyddio scribe yn creu cyllidebau, cymariaethau ac yn y blaen. Bydd yn sicrhau adroddiad misol sydd yn cysoni ar banc. Mae'r gallu o fewn y system hefyd i wneud rhestr asedau. Cost y system fydd £485 am y flwyddyn gyntaf a 288 pob blwyddyn wedi hynny. Mae'r system yn cael ei defnyddio oddi ar y we sydd yn sicrhau bod parhad busnes. Mae cost yr hyfforddiant yn gynwysedig ym mhris y system ynghyd a chymorth pob tro mae'r angen. Mae'r tîm i gyd yn gyfrifyddion cymwysedig. Penderfynwyd bod y Cyngor yn buddsoddi yn y system. Y Clerc i anfon gwybodaeth am y system i bob cynghorydd.	**CLERC**
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Ionawr 2022 fel rhai cywir.	**CLERC**
5.2	Parcio Hen Gei Llechi – dim cyfarfod wedi bod hyd yma. Bydd y Cadeirydd Iwan Huws yn hysbysebu'r Cyngor o unrhyw ddatblygiad maes o law..	**CLERC/IH**
5.3	Gwaith Priffyrdd – *i.* Wal Gynnal Hen Gei Llechi – ymateb wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd – gwelir cofnod o'r ymateb isod: *Gweler islaw ddiweddariad mewn perthynas ar wal gynnal:* *Mae'r holl fater ychydig yn gymhleth gan nad yw'n glir pwy sydd a gwir gyfrifoldeb am y wal. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb am ddiogelwch defnyddwyr y ffordd yn glir ac felly rydym yn gweithredu fel a ganlyn:*	**CLERC**

	• *Mae llythyr yn egluro beth fydd yn cymeryd lle wedi ei baratoi i'w anfon i berchnogion y tai sydd yn cefnu a rhan o'r wal sydd wedi disgyn, bydd hwn yn mynd iddynt ar ddechrau'r wythnos.* • *Onid bydd unrhyw sylw o wrthwynebiad, mae contractwr yn ei le i ddechrau ar y gwaith o fewn pythefnos lle byddwn yn dymchwel rhan bellach o'r wal gan ail godi yn ddilynol.* • *Rhagwelir bydd y gwaith yn cymeryd hyd at bedair wythnos ac felly disgwylir bydd yr holl waith (onid bydd problem yn codi) wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth.* ii. Gullies - cafwyd gwybodaeth bod gullies y pentref fel arfer yn cael sylw pob mis Ionawr, yn anffodus mae hyn wedi llithro eleni oherwydd mae blaenoriaeth yn cael ei roi i gefnffyrdd. Y Cynghorydd Eifion Williams a'r Clerc I wneud cais am gynllun lleoliad gullies y pentref I Gyngor Gwynedd. iii. Golau Cerrig yr Afon – adroddwyd bod y lamp bellach yn weithredol.	
5.4	Llwybrau – dywedodd y Clerc bydd y cyfarfod blynyddol a swyddogion Cyngor Gwynedd yn mis Mawrth y dyddiad i'w benderfynu eto. Dywedodd y Cynghorydd Nerys John byddai unai dydd Mawrth, mercher neu Gwener yn dderbyniol iddi hi. Y Clerc i hysbysu'r swyddogion o hyn.	**CLERC**
5.5	Cae Chwarae - cafwyd gwybodaeth bod dyddiad cychwyn y gwaith wedi ei benderfynu sef 7fed o Fawrth 2022.	**CLERC/EG/IH**
5.6	Maes Parcio - cafwyd gwybodaeth bod un cerbyd wedi symud i fod o flaen y modurdy a dywedodd y Cynghorydd Dan Williams bod trefniadau wedi ei wneud i gerbyd arall gael ei symud. Efallai bydd yn syniad i Is-Bwyllgor y Maes Parcio yn y Cyngor Newydd i ystyried arwydd i hysbysu'r cyhoedd rhag gadael cerbydau yn y Maes Parcio.	**CLERC**
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	Rhif Cais : C22/0008/20/DT Lleoliad: 1, Bryn Cottages, Llanfair Is Gaer, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1TU Bwriad: Estyniad deulawr ar dalcen y tŷ **– DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC**
6.2	Rhif Cais: C22/0011/20/DT Lleoliad: 42, Ger Y Nant Ger Y Nant, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4PF Bwriad : Estyniadau yn nhu blaen y tŷ ac yn y cefn**– DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC**
6.3	Rhif Cais : C22/0035/20/CT Lleoliad: 4 Aber Cottages, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JY Bwriad : Torri coeden a chario gwaith tocio ar goeden arall o fewn ardal gadwraeth**– DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC**
6.4	Rhif Cais : C22/0042/20/DT Lleoliad: Trefenai, 36 Ffordd Caernarfon, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RZ Bwriad : Estyniad un llawr yn y cefn, balconi newydd ynghyd a newidiadau i'r ffenestr gromen. **– DIM GWRTHWYNEBIAD**	

6.5	Rhif Cais: C22/0077/18/AC Lleoliad: 85 Hen Gei Llechi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4PE Bwriad: Diwygio amod 1 o ganiatâd cynllunio C17/0390/20/LL er mwyn ymestyn yr amser i godi'r estyniad am 5 mlynedd arall. **– DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.6	Rhif Cais : C21/0780/20/LL Lleoliad : Fferm Cefn, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QG Bwriad : Codi sied ar gyfer storio tail**– DIM GWRTHWYNEBIAD**	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Mae'r gwaith o lanhau'r cysgofannau wedi eu gwneu ar gost o £270. Roedd y contractor wedi llwyddo i gael y paent graffiti i ffwrdd. Roedd ychydig o baent gwyrdd y cysgodafanu wedi dod i ffwrdd, dywedodd y Cynghorydd Dan Williams y byddai yn cael gwybodaeth oddi wrth cynhyrchwyr y cysgodfannau am y paent er mwyn cael peth i wneud rhywfaint o waith cynnal. Penderfynwyd byddai'r Cyngor yn glanhau'r cygodfannau unwaith y flwyddyn.	
7.2	Mae pridd a dail a ddaeth i lawr o ganlyniad y tirlithriad yng nghysgodfan gyferbyn a Cwrt Menai angen i lanhau oddi ar y palmant. Penderfynwyd byddai'r Cynghorwyr sydd ar gael yn cyfarfod i wneud y gwaith glanhau. Cafwyd adroddiad bod dŵr yn dod i'r ffordd mewn sawl lleoliad ar Ffordd Caernarfon, penderfynwyd y byddai'r Cynghorydd Dan Williams a'r Cynghorydd Eifion Williams yn edrych ar y lleoliadau hyn tra byddent yn glanhau'r dail a'r pridd.	**DW**
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Gweler eitem 5.4	**DW/CLERC**
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Gweler eitem 5.6	**CLERC**
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Mabwysiadu Caeau Chwarae y pentref – bwriad y Cyngor oedd edrych ar fabwysiadu y Caeau Chwarae y Pentref er mwyn cymryd cyfrifoldeb amdant oddi wrth Gyngor Gwynedd. Ystyriwyd y mater unwiath yn rhagor a pehnderfynwyd oherwydd costau ychwannegol cyflwyno offer newydd eleni o fewn y Cae Chwarae yn Lan y Môr a'r costau annisgwyl y neuadd ni fyddai y Cyngor y mabwysiadu'r caeau ar hyn o bryd. Yn y cyfamser penderfynwyd cael adroddiad gan Gyngor Gwynedd i oed yr offer o fewn y ddau Gae Chwarae a pha bryd yn eu tyb nhw y byddai angen eu hadnewyddu. Y Clerc i adael i Gyngor Gwynedd wybod y penderfyniad ac i wneud cais am y wybodaeth ac asesiad ar y Caeau ac i ail edrych ar y mater o fewn blwyddyn pan fydd fwy o wybodaeth faint o arian sydd angen wrth gefn i fawbwysadu'r caeau.	**CLERC**
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Rhoddwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Dan Williams ar y sefyllfa bresennol llawr y neuadd. Dywedodd wrth y Cyngor bod gwneud gwaith ar y llawr wedi dangos bod angen edrych ar draws haearn o dan y prosceniwm arch angen sylw oherwydd rhwyd. Cafwyd ymweliad gan Beiriannydd	**CLERC**

	Strwythurol ac mae adroddiad wedi ei gyflwyno ynghyd a chyfarwyddiadau sut i ddatrys y mater. Oherwydd bod y nam wedi dod i'r golwg ar ochr Gaernarfon gwnaeth archwiliad ar ochr Bangor a gwelwyd bydd angen gwneud gwaith yr un fath ar yr ochr yno. Y Gwaith angenrheidiol fydd cyflwyno colofn allon frics ar bob pen. Mae manylion y costau wedi eu cofnodi cynt. Penderfynwyd bod y gwaith angen ei wneud a chytunwyd i wneud hynny	
12.0	**GWEFAN**	
	Cyflwynodd y Cynghorydd Nerys John adroddiad lafar ei bod wedi sylw nad oedd manylion adroddiadau cyllidol y Cyngor wedi eu gosod ar y wefan. Y Clerc i wneud trefniadau i rain cael eu gosod. Dywedodd y cadeirydd bod angen rhyw 'awdit' anffurfiol i weld os oes yna fylchau yn y wybodaeth ar y wefan. Gofynnwyd i bawb edrych ar y wefan cyn y cyfarfod nesa.	**CLERC/CR**
13.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dim gwaith wedi bod ar y cynllun yn ddiweddar. Er hynny cafwyd sylw gan un warden bod cylchoedd achub wedi bod yn arferiad ar lan y môr ac eu bod wedi diflannu ers blynyddoedd bellach. Roedd pryder herwydd bod plant a phobl ifanc yn hoffi neidio oddi ar y wal I'r môr a bod dim offer achur ger llaw os byddai galw amdanynt. Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon at Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd i wneud cais am un i'w osod ar wal y toiledau.	**CLERC**
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:30	
Llofnod:		**Dyddiad:**

ATODIAD 1

Ceisiadau grantiau 2022

Cymdeithas	mantolen /adroddiad ariannol	Derbynwyd yn 2021	Cais 2022	Swm	
Y Goriad	do	200	200	200	
Cyfeillion Ysgol Y Felinheli	do	1250	1550	1550	
Cyfeillion Ysgol Tryfan	do	dim cais	500		Gwrthod oherwydd y rheol mai dim ond cymdeithasau tu fewn i'r pentref sydd yn cymwys.
Clwb Gofal Y Felinheli	do	dim cais	1100	500	cyflwyno cyfraniad o £500 at yr achos.
Clwb Chwaraeon Seilo	do	dim cais			Gwrthod am y tro, gan nad yw'r prosiect heb ei sefydlu'n gadarn ar hyn
CPD Y Felinheli	do	2000		1000	
CPD Ieuenctid Y Felinheli	do	1000	1600	500	Cyfraniad at costau cyffredinol yn unig. Credir mai cyfrifoldeb Gwynedd yw gosod gwyneb drtos dro ar y cae chwarae.
PARCH	do	500	500	500	
Gwyl y Felin	do	1000	1000	1000	
Bwyd Bendigedig	Menter newydd	dim cais	300	300	
Cyfanswm		5950	6750	5550	Cyfanswm arfaethedig

Rhodd yn unol a rheolau sefydlog - £500 i Eglwys Llanfairisgaer ar gyfer y Fynwent.